**CYPE(6)-20-22 - Papur i'w nodi 5**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

Julie Morgan AS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau

11 Hydref 2022

**Gwerthuso'r cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal**

Annwyl Jane a Julie,

Lansiwyd ein hymchwiliad i blant â phrofiad o fod mewn gofal yn ddiweddar. Bydd yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar y prif flaenoriaethau ar gyfer diwygio'r system gofal: ble y gallai newidiadau wneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau plant a phobl ifanc.

Rydym yn sylweddoli bod y cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a'i bod yn rhy gynnar craffu ar ei effaith.

Fodd bynnag, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi rhywfaint o wybodaeth ar ddechrau'r cynllun hwn ynghylch sut y caiff y peilot ei werthuso. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybodaeth am y canlynol:

- Y gwaith o gasglu data sylfaenol a fydd yn cael ei ddefnyddio i ddangos sut mae'r peilot wedi effeithio ar fywydau'r bobl ifanc sy'n gadael gofal. Byddem yn falch o gael gwybodaeth am yr unigolion/sefydliadau a fydd yn gweithio gyda chi yn y cyswllt hwn, a'r cynnydd a wnaed hyd yma.

- Caffael y ddau ddarn o waith gwahanol, ond integredig, yn ymwneud â gwerthuso'r cynllun peilot: y broses gyfunol a gwerthusiad o'r effaith, a'r astudiaeth ethnograffeg ansoddol fanwl.

A fyddech cystal â rhoi'r wybodaeth hon i ni erbyn dydd Gwener 25 Tachwedd 2022 fan bellaf.

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn ein diweddaru'n gyffredinol bob chwe mis wedyn ynghylch y modd y mae'r cynllun peilot yn cael ei roi ar waith ac unrhyw arwyddion cynnar o'i effaith. Yn benodol, byddem yn croesawu unrhyw adborth a gewch gan y rhai sy'n gadael gofal a chan randdeiliaid ehangach, ac – wrth gwrs – hoffem eich barn chi a swyddogion Llywodraeth Cymru a sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth â chi i weinyddu'r peilot.

Yn gywir,

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.